Adroddiad y Trysorydd – Cyfarfod Blynyddol Cymdeithas Edward Llwyd
21ainHydref 2023 yn Ngwesty'r DIPLOMAT, LLANELLI
Manylion Incwm a Gwariant o 01/07/2022 hyd at 30/06/2023

Gyd-aelodau – blwyddyn arall wedi mynd heibio a'r Gymdeithas eleni yn 45 oed.

Mae'r fantolen yn dangos bod y sefyllfa ariannol unwaith eto yn dal yn gadarn ac arian wrth gefn ar gyfer prosiectau sy'n dod i'r golwg pob hyn a hyn. Sefyllfa y dylem fod yn falch iawn ohoni.

Ychydig iawn o wahaniaeth sydd rhwng yr incwm a'r gwariant gyda'r brif ffynhonnell incwm – y tâl aelodaeth yn dal i ddangos fod cyn gymaint ac sy'n ymaelodi hefyd yn gadael y Gymdeithas.

Mae'r gwariant hefyd yn ein hatgoffa mai cynhyrchu'r cylchgronnau a'u dosbarthu sy'n rhoi'r pwysau mwyaf ar y tâl aelodaeth ond heb y ddau gylchgrawn sut byddech chi'n gallu dilyn hynt a helynt y Gymdeithas dros y flwyddyn allan ym maes y tair rhanbarth a darllen erthyglau am weithgareddau sy'n cael eu cofnodi am fyd natur gan wirfoddolwyr o'r Gymdeithas.

Mae'r Cylchlythyr ar ei newydd wedd wedi'i dderbyn gan nid yw'n ymarferol bellach i drefnu teithiau fisoedd ymlaen llaw ac mae'n anodd coelio bydd costau cynhyrchu'n debygol o leihau hefo'r argyfwng ariannol yn dal i fodoli.
Fydd dim modd arbed arian hefo stondin yr Eisteddfod gan fod y costau'n cynyddu'n flynyddol heb ailwampio'i steil – a rhaid cael yswiriant diogelu'r cyhoedd, uwchraddio sustemau cyfrifiadurol a bancio.

Dwy ffynhonnell o newyddion da sydd a'r ddwy'n hunan gynhaliol – bod y daith flynyddol wedi bod yn llwyddiant ysgubol o'r dechrau a'r gynhadledd er fod arian hon yn rhannu dwy flwyddyn ariannol ambell dro (hon yn un ohonynt).

'Rwyf wedi penderfynnu rhoi gorau i swydd yr ydwyf wedi ei mwynhau'n fawr sef bod yn Drysorydd oherwydd amgylchiadau personol. Diolch i chi am eich cefnogaeth a'ch cyfeillgarwch dros y blynyddoedd.

Os oes cwestiynau i'w gofyn am y cyfrifon allwch chi eu gyrru i mi at ddechrau'r wythnos nesaf a chopi i Jackie os gwelwch yn dda.